11595 aa 15
1.-11

DWY O
GERDDI
TRA RHAGOROL.

I. Cerdd o Ymddiddan rhwng Mâb a Merch lle buasai Garwriaeth yn hîr; ond digwyddodd i'r Ferch fod wedi cloffi, neu'r peth a elwir yn gyffredin, beichiogi; ac felly mae hi yn adrodd ei Chwŷn, ac ynte'n ddifatter o honi: Iw chanu ar, *Monday Morning*.

II. Cerdd i gynghori'r Meibion yn erbyn Anlladrwydd: Iw chanu ar, *Gonsét* Catrin Penllyn, *neu*, Dorriad y Wawr.

Argraphwyd YNGHAERLLEON gan T. HUXLEY, dros *Wiliam Jones*, yn y Flwŷddyn, 1770.

Cerdd o Ymddiddan rhwng Mâb a Merch, lle buaſai Ga-rwriaeth yn hîr; ond digwyddodd i'r Ferch fod wedi cla-ffi, neu'r Peth a elwir yn gyffredin, beichiogi; ac ſell mae hi yn adrodd i Chwŷn, ac ynte'n ddi-fatter o honi. Iw chanu ar, Monday Morning.

Ferch.] FY Nghariad, clyw Nghwyn,
Rwi'n achwyn yn wachel yr Afel yr ês,
Tro yma trwy Ammod ddull hynod er Llês.
Mâb.] Mi'th wela maith wawr,
Yn awr yn anhirion, a'th Foddion yn fall,
Nid oes mor Help iti, di weli dy Wall.
Ferch] Nag oes rydwi'n gweled, un Dŷn o flîn flauned,
Eill droi mewn un Weithred ddawn eured ddoe'n ôl,
Nid oes ini ond gwneuthur ein gore'n dêg eirwir,
Gan geiſio drwy Gyſur, fyw'n rhwyddbur ſewn rhôl,
Na chaffo'n câs wawdio na'n ffeindio ni'n ffôl.
Mâb.] Mi glywa dy Draethod, yn deifio ar dy Daſod,
Rhyfeddol mor barod, hynt hynod wyt ti:
Parodrwydd dy Wenieth, ath feddal Naturieth,
A ddenodd oſyweth y Mawrbeth i mi,
Nid oes, y Merchede, mor chware a chwychi.

Y Ferch.

Y Ferch.] A'i dyna ger bron,
'Ch Attebion chwi tybed? mae'n galed y Gwall,
Na bydd ech chwi'n dyner dan Burder di Ball.
Mâb.] Mi fym, gwae fi fod,
Yn ormod fy Ffoledd, Air taercdd i ti;
Yn awr mae'n edifar drwm Alar i mi.
Ferch.] A'i rwan mor geenus, rych chwi'n edifarus,
Ar ôl cael eich Wllys, tra hoenus o hyd?
Fy nenu fi'n unig i'r Gwradwydd llygredig,
Am gado'n rhwygedig dan Berig y Byd,
O! Anwylyd troi'n Elyn, ar ôl calyn cyd. [aeth,
Mâb.] Taw, taw ath Camſyniaeth, nid ydwi'n Elyni-
Er oeri ar Garwriaeth, oedd unweth yn dda,
Mae Boreu têg eglur yn troi'n Brydnhawn budur,
Os cymrai di'n bryſur, pa'r Gyſur a gâ,
Yn ddi dderbyn Wyneb, rwi'n atteb, na wna.

Ferch.] Och clywed fel hyn,
Mae'n ſyn geni ſyned, am Llyged yn llawn,
Fe'm rhwyded i yn rhydoſt, iawn doſt os nad awn,
Mâb.] Nid awn rydwi'n deud,
I wneud mor anedwydd, a neidio'n rhy bell,
Cymeryd yn araf mi welaf ſy well;
Ferch.] Nid oeddych er's Dyddie'n conſidro mor Pethe,
Wrth bleſio'ch drŵg Nwŷde, chwi fydde'n bur ſwyn,
Yrwan rwi'n gweled eich bôd chwi'n ddi Deimled,
Heb hidio Nghaethiwed, mae'n galed y Gwŷn,
Dyma imi Fŷd atcas am ddi-ras ymddwŷn.
Mâb.] Ni waeth iti dewi ath Dadwrdd di oedi,
Mi wranta eſo thydi y leni amal un;
Ac felly os bydd gormod o bwnio'n 'run Bennod,

Ma

Mae'n anodd adnabod *Naid* hynod pôb Dŷn,
Ond gwell imi beidio a fy hurtio fy hun:

Ferch.] Wel, dyma hi'n doſt,
Bu'n rhydoſt fy Rhediad, mae'ch Siarad chwi'n ſyn,
Os ych chwi drwy Burnerth yn barnu fel hyn.
Mâb.] Nid barnu rwi fi,
Tydi a wyr ore, pa Gaſtie a fy gynt,
Wrth ganlyn Cwmpeini ai Penne yn y Gwynt.
Ferch.] Och! Eirie tra chwerwon, o Gelwydd rhŷ greulon,
Ni cherais, awch wirion, rhai gwaelion eu Gwŷn,
Os wyt yn dyfeiſio rhyw Ffordd im troi heibio,
Peth bynnag a ddelo, Duw dalo iti'r Dŷn,
Am fy ngado mewn Aflwydd oth herwydd dy hun.
Mâb.] Ffarwel iti bellach, ymado rwi'n holliach,
Fe ddarfu'r Gyfeilliach, Waith dewrach ath di;
Dy Goecni penchwiban, ddaw iti dy hunan,
Os aethoſt yn drwſtan, afrwyddlan dy Fri,
Ni wnei di mor Drwbwl, rwi'n meddwl, i mi.

THO. EDWARDS, *ai gwnaeth.*

Y Ferch.] A'i dyna ger bron,
'Ch Attebion chwi tybed? mae'n galed y Gwall,
Na tyddech chwi'n dyner dan Burder di Bâll.
Mâb.] Mi fym, gwae fi fod,
Yn ormod fy Ffoledd, Air taeredd i ti;
Yn awr mae'n edifar drwm Alar i mi.
Ferch.] A'i rwan mor geenus, rych chwi'n ediſarus,
Ar ôl cael eich Wllys, tra hoenus o hyd?
Fy nenu fi'n unig i'r Gwradwydd llygredig,
Am gado'n rhwygedig dan Berig y Byd,
O! Anwylyd troi'n Elyn, ar ôl calyn cyd. [aeth,
Mâb.] Taw, taw ath Camſyniaeth, nid ydwi'n Elyni-
Er oeri ar Garwriaeth, oedd unweth yn dda,
Mae Boreu têg eglur yn troi'n Brydnhawn budur,
Os cymrai di'n bryſur, pa'r Gyſur a gâ,
Yn ddi dderbyn Wyneb, rwi'n atteb, na wna.

Ferch.] Och clywed fel hyn,
Mae'n ſyn geni ſyned, am Llyged yn llawn,
Fe'm rhwyded i yn rhydoſt, iawn doſt os nad awn,
Mâb.] Nid awn rydwi'n deud,
I wneud mor anedwydd, a neidio'n rhy bell,
Cymeryd yn araf mi welaf ſy well;
Ferch.] Nid oeddych er's Dyddie'n conſidro mor Pethe,
Wrth bleſio'ch drŵg Nwŷde, chwi fydde'n bur ſwyn,
Yrwan rwi'n gweled eich bôd chwi'n ddi Deimled,
Heb hidio Nghaethiwed, mae'n galed y Gwŷn,
Dyma imi Fŷd atcas am ddi-ras ymddwŷn.
Mâb.] Ni waeth iti dewi ath Dadwrdd di oedi,
Mi wranta eſo thydi y leni amal un;
Ac ſelly os bydd gormod o bwnio'n 'run Bennod,

Ma

Mae'n anodd adnabod *Naid* hynod pôb Dŷn,
Ond gwell imi beidio a fy hurtio fy hun:

Ferch.] Wel, dyma hi'n doſt,
Bu'n rhydoſt fy Rhediad, mae'ch Siarad chwi'n ſyn,
Os ych chwi drwy Burnerth yn barnu fel hyn.
Mâb.] Nid barnu rwi fi,
Tydi a wyr ore, pa Gaſtie a fy gynt,
Wrth ganlyn Cwmpeini ai Penne yn y Gwynt.
Ferch.] Och! Eirie tra chwerwon, o Gelwydd rhŷ greulon,
Ni cherais, awch wirion, rhai gwaelion eu Gwŷn,
Os wyt yn dyfeiſio rhyw Ffordd im troi heibio,
Peth bynnag a ddelo, Duw dalo iti'r Dŷn,
Am fy ngado mewn Aflwydd oth herwydd dy hun.
Mâb.] Ffarwel iti bellach, ymado rwi'n holliach,
Fe ddarfu'r Gyfeilliach, Waith dewrach ath di;
Dy Goecni penchwiban, ddaw iti dy hunan,
Os aethoſt yn drwſtan, afrwyddlan dy Fri,
Ni wnei di mor Drwbwl, rwi'n meddwl, i mi.

THO. EDWARDS, *ai gwnaeth.*

Cerdd

Cerdd i gynghori'r Meibion yn erbyn Anlladrwydd: Iw chanu ar Gonſet Catrin Penllyn; *neu*, Doriad y Wawr.

Y Dynion iſenge nwyſus,
Naws hoenus, eyd neſhewch,
I wrando hyn trwy Deimlad,
Er Cariad, na nacewch.
Arnoch chwi'n ôl Rheſwm
Yn llwyrdrwm heb ddim llai,
O herwydd trîn Anlladrwydd
Mae beunydd mwya Bai.
Y Merched addfed wawr,
Hawdd ganthynt lithro i lawr,
Wrth bwyſo'n hu, ar Gangen gu,
Ni ddeil hi fyny fawr:
Ei Nwyde ſydd anwadal,
A meddal wamal wŷn;
Dinerth Donen ydiw Meinwen,
Nid iw hi ond Aſen Dŷn.
A Rheſwm gwan i'n gwŷdd,
Cynghori'r Aſen rywydd,
I wrthnebu Brŷd y Corph i gŷd,
Yn Chwant ei ynſyd Chwŷdd,
Rhoed Mâb i arglwyddiaethu,
Uwch Modd a Gallu Merch;
A'r Mâb a ddyle drefnu'n ddie,
Mewn Sadrwydd Nwyde Serch.

Wrth Synwyr a Gorchymmyn,
Canfyddwn hyn mewn Hedd,
Nad ydiw'r Merched cryfa
Ond y Lleſtri gwanna eu Gwedd;
I'r Dynion yr ordeinied
Gochelyd Merched mall,
Yn lle rhyw ffals ymwthio,
A llithio hon a'r llall:
Anamal feddal Fun
Fy'n crefu *hynny* ei hun,
Er bod trwy'r Bŷd, mewn gwantan Frŷd,
Lwyr Wendid lawer un:
Gwaith Dynion drŵg yn denu
Sy'n tynnu rheini'n rhwydd;
A llwythe a Barieth taer Naturieth,
Oſywaeth, at y Swydd.
Lleſhâd i bôb Dŷn ſy
F'ae gofio'r Gwâs oedd gu,
Yn gwrthod Gwall ei Feiſtres fall,
Noeth oerwall yn ei Thŷ;
Lle gwelom ninne ûn anllad,
A Throcad Llygad llon,
Mwy rheitiach ini ochel rhagddi,
Na hoffi Cwmni hon.

Ond Natur anwir wŷnias,
Fel *Suddas* aflan ſerch,
Iw ymwneuthur trwy weneithio,
Lhŵdo a moeddu Merch;
A-hwedi cael yeh Pwrpas
I'eh Natur ddi-ras ddu,

Hawdd

Hawdd genych edliw a chodlo,
Neu foſtio fel y fu:
Gwneud felly Orcheſt wael,
Och Drŵg mewn aſiach Drael,
Fel Pette o hyd, i chwi'n y Bŷd,
Eich Rhydid Hawddfyd hael,
Ach diffaith oerfaith Arfer,
Iw dal drwy Drawſter draw,
Mynd ai gado, ar ôl ei hudo,
Ai llwytho'n gaeth ei Llaw:
A phe ddiſgwyliff Dŷn
Am hynny, iddo i hun?
O Ddrŵg di glod, y Drŵg ſy ſod,
Yn Bennod i bôb un:
Ni ddiange Ych afrywiog
Traws gwibiog tros bôb Gwal,
Bydd *Aerwy* oerwall, *Iau* neu *Fwyall*,
Yn ddiball ſiwr oi dda!.

THO. EDWARDS, *ai gwnaeth.*

TERFYN.